**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 17 Awst 2023 am 3.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd J Smith
Y Cynghorydd R Williams

**Roedd y Aelodau Pwyllgor Cynllunio a Datblygu canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd L A Tomkinson

**Swyddogion oedd yn bresennol: -**

Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr M Farley, Uwch Gynllunydd
Mr G Howard, Uwch Gynllunydd

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd H Gronow
Y Cynghorydd C Lisles
Y Cynghorydd D Wood
Y Cynghorydd J Edwards
Y Cynghorydd J Elliott

## 65 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A Dennis, G Hughes ac W Lewis.

## 66 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

67 **DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

68 **DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

69 **COFNODION 20.07.23**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 20.07.23 yn rhai cywir.

70 **NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

71 **CAIS RHIF: 22/1378**

**Amrywio Amod 1 o ganiatâd cynllunio rhif 15/1635/10 – ymestyn y terfyn amser ar gyfer cychwyn y gwaith datblygu am flwyddyn ychwanegol (Nodyn Gwybodaeth Draenio 10/02/23 Diwygiad 2 – 10/07/23, derbyniwyd 16/06/23). FFERM LLWYNCELYN, LÔN HAFOD, Y PORTH, CF39 9UE**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud **yr un** i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

-Mr Rob Griffiths (Asiant)
-Mr Philip Thomas (Gwrthwynebydd)
-Mr Steve Jones (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Asiant, Mr Rob Griffiths, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebydd.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Edwards, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei phryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd Arweinydd y Garfan Ceisiadau Cynllunio y cais i'r Pwyllgor ac ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** gohirio penderfynu ar y cais tan gyfarfod y

Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol er mwyn casglu rhagor o wybodaeth am ddraenio, y llwybr posibl ar gyfer ceblau a'r effaith posibl ar y domen, ac am ragor o wybodaeth am yr effaith weledol ar yr ardal leol.

**72 CAIS RHIF: 22/1272**

**Adeiladu a gweithredu hyd at 14 o dyrbinau gwynt a'r seilwaith cysylltiedig, gan gynnwys: gosod mannau llawr caled gan gynnwys sylfeini ar gyfer y tyrbinau, llawr caled ar gyfer craen a man gosod a storio, gyda dyraniad o'r tir ar gyfer gwaith microleoli cysylltiedig (dewis lleoliad penodol ar gyfer tyrbinau gwynt); is-orsaf drydanol ac adeilad rheoli gyda cheblau trydan tanddaearol; llwybr mynediad newydd sy'n cysylltu â'r A472; traciau mynediad ar y safle gyda phiblinellau a chroesfannau cwrs dŵr; pwll/pyllau benthyg; mast ar gyfer anemomedr; caeadle ar gyfer adeiladu a storio offer dros dro gyda mannau gosod cysylltiedig ger mynedfa'r safle; ardal rheoli cynefin; a gwaith oddi ar y safle i hwyluso symud llwythi anghyffredin megis adeiladu mannau gor-redeg ac addasiadau dros dro i gelfi stryd. TIR I'R GOGLEDD O SENGHENYDD, CAERFFILI A FYDD YN CAEL EI ADNABOD FEL PARC YNNI TWYN HYWEL**

Aelodau nad sy'n rhan o'r pwyllgor/Aelodau Lleol – siaradodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol C Lisles, H Gronow a D Wood ynglŷn â'r cais a chyflwyno eu pryderon ynghylch y cynnig.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi Adroddiad y Cyngor ar yr Effaith Leol i'r Pwyllgor ac ar ôl ei ystyried **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Adroddiad ar yr Effaith Leol yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu yn amodol ar lythyr adendwm yn amlinellu'r pryderon a godwyd gan yr Aelodau yn ystod y ddadl.

**73 CAIS RHIF: 23/0398**

**Newid defnydd o Dŷ Amlfeddiannaeth (defnydd C4) i Gartref Plant a gwaith cysylltiedig. (Cynllun Lleoliad Safle Diwygiedig wedi dod i law ar 08/06/2023) 37 STRYD ELISABETH, ABERDÂR, CF44 7LN**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Ms L Hughson-Smith (Asiant). Cafodd hi bum munud i gyflwyno'r cais i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Bradwick, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei bryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Darllenodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi gynnwys llythyr 'hwyr' a gyflwynwyd gan Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol yn amlinellu pryderon ynghylch y gwaith datblygu arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi ei gais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau wrthod y cais uchod, yn groes i argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn am fod yr Aelodau o'r farn y byddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol o ran diffyg amwynder i breswylwyr a diffyg mannau parcio i staff. O ganlyniad i hynny, cai'r mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu

fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â dod i benderfyniad yn groes i argymhelliad Swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros ddod i benderfyniad o'r fath.

**74 CAIS RHIF: 23/0506**

**Dymchwel adeiladau presennol ac adeiladu cartref gofal preswyl arbenigol ag 16 ystafell wely (dosbarth defnydd cynllunio C2) a gwaith cysylltiedig. TIR Y TU ÔL I RIFAU 15 AC 16 FFORDD Y RHIGOS, HIRWAUN, ABERDÂR, CF44 9PS**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Ms L Hughson-Smith (Asiant). Cafodd hi bum munud i gyflwyno'r cais i'r Aelodau.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 20 Gorffennaf 2023 pan benderfynodd yr Aelodau ohirio'r cais er mwyn caniatáu trafodaethau pellach rhwng Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Cynllunio a'r Ymgeisydd ynghylch manylion y cais (Cofnod rhif 47).

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi fanylion y cais diwygiedig i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr Amodau diwygiedig sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

**75 CAIS RHIF: 22/0734**

**Estyniad i adeiladau ystafelloedd newid traddodiadol brics/bloc. (Arolwg Ystlumod ac Adar wedi dod i law ar 07/11/22) (Arolwg Gweithgaredd Ystlumod wedi dod i law ar 14/07/23) YSTAFELLOEDD NEWID PENYRENGLYN, STRYD BAGLAN, TREHERBERT, TREORCI, CF42 5AW**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**76 CAIS RHIF: 22/1321**

**Newid defnydd tŷ preswyl i fod yn gartref gofal i blant (C2)
41 HEOL Y COED, TREFFOREST, PONTYPRIDD, CF37 1RH**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi ei gais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau wrthod y cais uchod, yn groes i argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn am fod yr Aelodau o'r farn bod diffyg gofod ar gyfer parcio ac amwynder, ac y byddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar y gymuned leol.

O ganlyniad i hynny, cai'r mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â dod i benderfyniad yn groes i argymhelliad Swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros ddod i benderfyniad o'r fath.

**77 CAIS RHIF: 22/1433**

**Cynllun arfaethedig i adeiladu dwy annedd, maes parcio a gwaith cysylltiedig. TIR GWAG AR STRYD WILLIAM, YSTRAD, PENTRE**

Amlinellodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi gynnwys llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd gan Mr G Chappell, a oedd yn gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**78 CAIS RHIF: 22/1476**

**Cadw tirffurf a grëwyd gan tua 19,700m3 o ddyddodion yn dilyn tirlithriad Tylorstown yn barhaol, creu llwybr troed newydd a fydd yn cynnwys dwy bont droed, gwaith draenio, gwaith tirlunio, mesurau lliniaru effaith ar gynefinoedd a'r amgylchedd a gwaith cysylltiedig. TIR GYFERBYN Â PHARC BUSNES MAES-Y-DERI, GLYNRHEDYNOG**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**79 CAIS RHIF: 22/1477**

**Cadw tua 740m3 o ddyddodion yn barhaol o dirlithriad Tylorstown, gwaith tirlunio, mesurau lliniaru effaith ar gynefinoedd a'r amgylchedd a gwaith cysylltiedig. TIR I'R DE O HEOL YR ORSAF, GLYNRHEDYNOG**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**80 CAIS RHIF: 23/0433**

**Siop gwerthu coffi trwy ffenestr y car (Defnydd A1/A3 Cymysg) a gwaith cysylltiedig (Disgrifiad Diwygiedig a'r wybodaeth ddiweddaraf ar Ddosbarth Defnydd wedi dod i law ar 09/06/23) ASDA STORES LTD, FFORDD TIRWAUN, CWM-BACH, ABERDÂR, CF44 0AH**

(**Noder:** Ar yr adeg yma yn y cyfarfod, datganodd Gynghorydd y Fwrdeistref

Sirol J Elliott (Aelod nad sy'n rhan o'r pwyllgor/Aelod Lleol) fuddiant personol sy'n rhagfarnu yn ymwneud â'r cais.
"Rydw i'n byw yng Nghaeau Tirfounder sydd gerllaw'r datblygiad arfaethedig."

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Elliot, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei bryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**81 CAIS RHIF: 23/0651**

**Gosod poster digidol LED wedi'i oleuo'n fewnol yn lle poster hysbysebu statig ôl-oleuedig. THEATR Y COLISËWM, STRYD BRYN HYFRYD, TRECYNON, ABERDÂR, CF44 8NG**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**82 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 24/07/2023 – 04/08/2023.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.48 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**